Teulu Mawr Trefeca

Dewrder / gosod esiampl / ffyddlondeb

Howell Harris: 1714-1773

Yn ôl pob hanes, gŵr digon gwyllt oedd Howell Harris yn ei arddegau. Byddai'n meddwi ac yn hapchwarae. Ond newidiodd ei fywyd yn gyfan gwbl ar Sul y Blodau yn 1735. Clywodd Ficer Talgarth yn pregethu a phenderfynodd o'r munud hwnnw fyw ei fywyd yn pregethu a sôn am Iesu Grist. Roedd am i bobl eraill glywed am neges Iesu. Teithiai ar gefn ceffyl i bob rhan o Gymru ac i Loegr i bregethu.

Yn araf, gwanychodd ei iechyd. Bu'n rhaid iddo aros gartref yn Nhrefeca am gyfnod. Rhaid oedd ailfeddwl am ei waith. Fel hyn yr aeth y sgwrs rhyngddo a ffrind un noson.

Howell Harris: Mae arna i ofn y bydd rhaid i mi ailfeddwl am y gwaith rydw i'n ei wneud. Dyw fy iechyd i ddim fel y bu. Roeddwn i'n gallu mynd o gwmpas y wlad a theithio dros gant a hanner o filltiroedd yr wythnos i bregethu. Ond fedra i ddim gneud hynny'n awr. Rwyf am ddechrau rhywbeth newydd yn Nhrefeca yma. Mi hoffwn i weld nifer o bobl yn byw efo'i gilydd fel un "teulu" mawr.

Ffrind: Un "teulu" mawr. Wel, mi fydd hynny'n golygu tipyn o waith trefnu. A beth fyddan nhw'n ei wneud trwy'r dydd?

Howell Harris: Y gwaith cyntaf un fydd codi adeilad newydd yma. Dymchwel yr adeilad yn gyntaf wrth gwrs. A chodi adeilad newydd fydd yn ddigon mawr i ddal oddeutu cant o bobl.

Ffrind: Ond mi ydw i'n dal i feddwl beth fyddwch chi'n ei wneud efo'r bobl. Meddyliwch chi am y plant yn rhedeg o gwmpas ddydd a nos.

Howell Harris: Rwyf wedi bod yn meddwl y byddai'r tadau'n gallu dal ymlaen gyda'u crefft. Ffermio, gwaith saer coed a saer maen neu unrhyw grefft arall. Fe allai'r mamau eu helpu neu ofalu am y plant.

Ffrind: Onid ydych chi'n mynd i drafferth fawr a'ch iechyd chi'n fregus?

Howell Harris: Rwy'n siŵr y bydd fy iechyd yn gwella. Meddyliwch am y syniad o un "teulu" mawr yn cydweithio. Fel y cofiwch

chi, mi wnaeth yr Eglwys Fore hyn ac mi fu yn llwyddiannus iawn. Ac mi fyddwn innau'n hoffi gwneud yr un peth.

Ffrind: Sut y bydd pethau'n digwydd o ddydd i ddydd? Ydych chi wedi meddwl am hynny?

Howell Harris: Wel do. Fel hyn roeddwn i'n gweld pethau. Codi tua 4 o'r gloch y bore a chael brecwast, wel i'r rhieni! Cyfle wedyn iddyn nhw wrando ar bregeth. Y plant i gael brecwast tua 6 o'r gloch. Wedyn cyfle i'r rhieni weithio tan amser cinio. Yna, ar ôl cinio, cyfle i'r "teulu" i gyd glywed am y bywyd Cristnogol. Gweithio wedyn o tua 3 o'r gloch tan 8 o'r gloch y nos. Swper a rhoi'r plant yn eu gwlâu. Wedyn addoli unwaith eto cyn noswylio am 10 o'r gloch.

Ffrind: Wel, mae hynny'n swnio'n ddiwrnod llawn iawn i mi. Mae'n siŵr y byddai'r rhieni'n gallu troi eu llaw at bethau fel gwneud basgedi, gwaith lledr, rhwymo llyfrau, argraffu, cerfio, nyddu ...

Howell Harris: Wel wir, mae gennych chi syniadau ardderchog. Wyddoch chi, rwy'n edrych ymlaen yn arw at godi'r adeilad yma ac i gael y "teulu" ynghyd. Mi fyddwn i wrth fy modd yn arbrofi gyda dulliau amaethyddol newydd oherwydd mi fydd yna 700 erw o dir o gwmpas Trefeca newydd.

Ffrind: Wel, mi fydd rhaid i mi eich gadael chi, Howell. Mi fydda i yn siŵr o gadw mewn cysylltiad â chi dros y misoedd nesaf. Bendith Duw ar eich gwaith, beth bynnag wnaiff ddigwydd.

"...ni bûm anufudd i'r weledigaeth nefol..."
Actau 26:19-20

O Dduw, diolch am Howell Harris,
a fu trwy Gymru,
yn corddi eneidiau pobl
trwy'r broydd i gyd.
Amen.

A ddylai Cristnogion rannu eu heiddo fel y gwnaeth "Teulu Trefeca"?